“Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw’n blant i Dduw” **(Mathew 5:9)**

Dyma un arall o ‘Wynfydau’ yr Arglwydd Iesu. Mae’n sôn am dangnefedd, neu heddwch, pwnc canolog iawn i’r Testament Newydd.

Shalom!

Dyna’r gair Hebraeg sydd wedi dod yn gyfarwydd i ni erbyn hyn. Yn y Roeg, y gair yw ‘eirënë.’ Mae’n siŵr mai yn Aramaeg, iaith debyg i Hebraeg, y byddai Iesu’n siarad. Yn Hebraeg, nid rhywbeth negyddol yw heddwch, megis absenoldeb trafferth neu ryfel; i’r gwrthwyneb, mae ‘shalom’ yn gadarnhaol, rhywbeth sy’n peri’r daioni uchaf i ddyn. Mae dymuno ‘shalom’ i rywun yn golygu dymuno presenoldeb pethau da, nid yn unig absenoldeb pethau drwg.

Gwneud heddwch

Rhaid cofio mai tangnefeddwyr, rhai sy’n gwneud tangnefedd, sydd o dan fendith y nef, ac nid y rhai sy’n caru heddwch yn unig, heb wynebu’r gost. Mae caru heddwch a pheidio â wynebu problemau yn medru creu mwy o drafferth a thensiwn yn aml. Nid trwy osgoi materion pwysig y daw heddwch y Beibl, ond trwy eu hwynebu, delio â nhw, a’u concro. Dyma beth yw gwneud tangnefedd a heddwch.

Sut mae bod yn dangnefeddwyr?

Rheoli’r tafod. Dywed epistol Iago: **“Rhaid i bob un fod yn gyflym i wrando, ond yn araf i lefaru, ac yn araf i ddigio”**(1.19). Rhaid ceisio gras yr Arglwydd i beidio ag ymateb i air sydd wedi’n brifo. Rhaid peidio ag ailadrodd cyfrinachau neu bethau annheilwng ac angharedig am rywun arall. Rhaid gweddïo am ddoethineb i dewi yn aml.

Cofio cyd-destun Teyrnas Crist. Rhaid i ni weld popeth mewn cyd-destun ehangach na ni’n hunain. Os oes mater yn fy mhoeni, ac rwy’n cael fy nhemtio i fynnu fy ffordd a’m hawliau, beth fydd y canlyniad o ran tystiolaeth yr Efengyl? Beth fydd y canlyniad o ran Eglwys Iesu Grist? Mae achos Iesu’n bwysicach na’m hachos personol i.

Ceisio heddwch. Rhaid chwilio am gyfleoedd cadarnhaol i ddangos heddwch a thangnefedd. **“os bydd dy elynion yn newynu, rho fwyd iddynt; os byddant yn sychedu, rho iddynt beth i’w yfed”** (Rhuf.12.20). Mae cyfle i dorri muriau anghydfod trwy garedigrwydd a gosyngeiddrwydd.

Rhannu tangnefedd. Rhaid cael gras i beidio ag ymbellhau oddi wrth bobl.

Dylem fod yn hawdd i nesáu atom ac i siarad â ni. Dylai fod trugaredd a gras yn treiddio trwy ein personoliaeth. Mae'n amlwg mai trwy Grist y daw'r gras hwn i'n bywydau a thrwy ddylanwad yr Ysbryd Glân arnom.

Heddwch mewnol

Mae'r gair Cymraeg 'tangnefedd' yn awrgymu heddwch mewnol. Mae'n debyg mai'r esboniad mwyaf cyffredin o'r Gwynfyd yma yn yr Eglwys Fore oedd ei fod yn cyfeirio at y person sydd yn dod o hyd i heddwch yn ei galon a'i enaid ei hun. Mae tensiwn a thyndra mewnol ynom i gyd, rhwng da a drwg, a rhwng yr hen natur a'r natur newydd i'r Cristion. Mae'r person sydd wedi cael tangnefedd yn ei galon, gyda'i holl galon yn eiddo'r Arglwydd, yn hapus mewn gwirionedd.

Plant i Dduw

Ystyr yr ymadrodd yma yw eu bod yn debyg i Dduw. Gwelwn ymadrodd tebyg yn y disgrifiad o Barnabas – fe'i gelwir yn fab anogaeth. Felly, pan mae Cristion yn dangnefeddwr, mae'n debyg i'w Dad nefol.

Un o'r disgrifiadau o Dduw sy'n digwydd yn aml yn y Testament Newydd yw **'Duw yr heddwch'.** Yn wir, mae holl neges yr Efengyl yn dangos Duw fel tangnefeddwr, yn cymodi'r byd ag ef ei hun yng Nghrist. Dywed yr Efengyl fod Duw wedi meddwl meddyliau o hedd amdanom: **"bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol"** (Jer. 29:11).

Un o deitlau'r Meseia yw **'Tywysog heddychlon'** (Es. 9:6) ac mae'r apostol Paul yn sôn am waith Duw yng Nghrist, **"wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymodi pob peth ag ef ei hun"** (Col. 1:20 BWM).

Dywed Paul hefyd bod Crist wedi gwneud heddwch rhwng pobloedd oedd yn hollol elyniaethus i'w gilydd, trwy'r groes, sef trwy iddynt ddod yn Gristnogion. Felly daeth Iddew a Chenedlddyn, caeth a rhydd, gwryw a benyw, yn un trwy Grist.

Gweinidogaeth cymod

Yn dilyn hyn, mae'r gwaith o efengylu yn waith o gymodi ac o wneud heddwch hefyd. Yr ydym ni fel pobl Crist yn lysgenhadon dros Dduw ac yn erfyn ar bobl i gael eu cymodi â Duw trwy ddod at Grist eu Gwaredwr a'u Harglwydd. Mae'r Efengyl, yn gyntaf, yn cymodi dyn â Duw. Mae efengylu hefyd yn bwysig i gymodi pobl â'i gilydd. Yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf gwelais Gristnogion o Serbia a Chroatia yn cofleidio'i gilydd pan oedd eu cydwladwyr yn bomio'i gilydd.

Diolch am Dduw yr heddychwr a'r tangnefeddwr, a diolch am ei Efengyl sy'n gwneud pobl yn debycach iddo.